OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 11 (Cy. 5)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2019

*Gwnaed - - - - 8 Ionawr 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**), a pharagraffau 2 i 7 o Atodlen 1B iddi.

Yn unol ag adran 13A(8) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny.

(4) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013(**2**), neu'r cynllun sy'n gymwys yn ddiofyn yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013**

**2.** Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 10.

**3.** Yn Atodlen 1 (penderfynu cymhwystra am ostyngiad: pensiynwyr)—

(**1**) 1992 p. 14. Amnewidiwyd adran 13A gan adran 10(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17) a mewnosodwyd Atodlen 1B gan adran 10(2) o'r Ddeddf honno, ac Atodlen 4 iddi.

(**2**) O.S. 2013/3029 (Cy. 301), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2014/852, O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20) ac O.S. 2018/14 (Cy. 7).

(a) ym mharagraff 3 (didyniadau annibynyddion: pensiynwyr)—

(i) yn is-baragraff (1)(a) yn lle "£13.10" rhodder "£13.75";

(ii) yn is-baragraff (1)(b) yn lle "£4.35" rhodder "£4.55";

(iii) yn is-baragraff (2)(a) yn lle "£205.00" rhodder "£210.00";

(iv) yn is-baragraff (2)(b) yn lle "£205.00", "£355.00" ac "£8.70" rhodder "£210.00", "£365.00" a "£9.15" yn y drefn honno;

(v) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "£355.00", "£440.00" a "£10.95" rhodder "£365.00", "£450.00" ac "£11.50" yn y drefn honno;

(b) ym mharagraff 19(8)(k) (trin costau gofal plant: pensiynwyr), yn lle "Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003" rhodder "Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003(**3**), neu unrhyw reoliadau a wneir o dan adrannau 87 a 93 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**4**) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdodau lleol".

**4.** Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£163.00" a "£176.40" rhodder "£167.25" a "£181.00" yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£248.80" a "£263.80" rhodder "£255.25" a "£270.60" yn y drefn honno;

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£248.80" ac "£85.80" rhodder "£255.25" ac "£88.00" yn y drefn honno;

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£263.80" ac "£87.40" rhodder "£270.60" ac "£89.60" yn y drefn honno;

(b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£64.30" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£65.85" ac yn lle "£128.60" rhodder "£131.70";

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£25.48" rhodder "£26.04";

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£62.86" rhodder "£64.19";

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£36.00" rhodder "£36.85".

**5.** Yn Atodlen 5 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 21(2)—

(i) ym mharagraff (p) hepgorer "neu;";

(ii) ym mharagraff (q) yn lle "." rhodder "; neu";

(iii) ar ôl paragraff (q) mewnosoder—

"(r) taliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014(**5**),"; a

(b) ar ôl paragraff 28B mewnosoder—

"**28C.** Unrhyw daliad cymorth profedigaeth mewn cysylltiad â'r gyfradd a bennir yn rheoliad 3(2) neu (5) o Reoliadau Taliad Cymorth Profedigaeth 2017(**6**) (cyfradd y taliad cymorth profedigaeth), ond am gyfnod o 52 o wythnosau yn unig o ddyddiad cael y taliad."

(**3**) O.S. 2003/237 (Cy. 35).
(**4**) 2014 dccc 4.
(**5**) 2014 p. 19.
(**6**) O.S. 2017/410.

**6.** Yn Atodlen 6 (penderfynu cymhwystra am ostyngiad o dan gynllun awdurdod, swm unrhyw ostyngiad, a chyfrifo incwm a chyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 5 (didyniadau annibynyddion: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(i) yn is-baragraff (1)(a) yn lle "£13.10" rhodder "£13.75";

(ii) yn is-baragraff (1)(b) yn lle "£4.35" rhodder "£4.55";

(iii) yn is-baragraff (2)(a) yn lle "£205.00" rhodder "£210.00";

(iv) yn is-baragraff (2)(b) yn lle "£205.00", "£355.00" ac "£8.70" rhodder "£210.00", "£365.00" a "£9.15" yn y drefn honno;

(v) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "£355.00", "£440.00" a "£10.95" rhodder "£365.00", "£450.00" ac "£11.50" yn y drefn honno;

(vi) yn is-baragraff (8) yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) nad yw'n aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith, ac sy'n derbyn cymhorthdal incwm, credyd pensiwn y wladwriaeth, lwfans ceisio gwaith ar sail incwm neu lwfans cyflogaeth a chymorth ar sail incwm;";

(b) ym mharagraff 21(8)(k) (trin costau gofal plant) yn lle "Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003" rhodder "Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 neu unrhyw reoliadau a wneir o dan adrannau 87 a 93 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdodau lleol".

**7.** Yn Atodlen 7 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£76.10" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£77.90" ac yn lle "£60.25" rhodder "£61.70";

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£76.10" rhodder "£77.90";

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£119.50" rhodder "£122.35";

(b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£33.55" a "£47.80" rhodder "£34.35" a "£48.95" yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£64.30" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£65.85" ac yn lle "£128.60" rhodder "£131.70";

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£62.86" rhodder "£64.19";

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£36.00" rhodder "£36.85";

(v) yn is-baragraff (5) yn lle "£25.48", "£16.40" a "£23.55" rhodder "£26.04", "£16.80" a "£24.10" yn y drefn honno;

(c) yn Rhan 6 (symiau'r elfennau), ym mharagraff 24 (swm yr elfen gymorth), yn lle "£37.65" rhodder "£38.55".

**8.** Yn Atodlen 8 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo enillion: personau nad ydynt yn bensiynwyr), ym mharagraff 18(2)(b), yn lle is-baragraff (iv) rhodder—

"(iv) y ceisydd, nad yw'n aelod o gwpl, yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd, a bod—

(aa) swm cymwysadwy'r ceisydd yn cynnwys premiwm anabledd o dan baragraff 9 o Atodlen 7 neu'r elfen gymorth o dan baragraff 22 o Atodlen 7; neu

(bb) y ceisydd yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith; neu

(v) y ceisydd yn aelod o gwpl ac o leiaf un aelod o'r cwpl hwnnw yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd, a bod yr aelod hwnnw o'r cwpl—

(aa) yn bodloni'r amodau cymhwyso ar gyfer y premiwm anabledd o dan baragraff 9 o Atodlen 7 neu'r elfen gymorth o dan baragraff 22 o Atodlen 7; neu

(bb) yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith."

**9.** Yn Atodlen 9 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 46(2) ar ôl "Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd" mewnosoder "a Gofal Cymdeithasol";

(b) ar ôl paragraff 66 mewnosoder—

"**67.** Unrhyw daliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014 (taliad cymorth profedigaeth) ac eithrio unrhyw daliad o'r fath a ddiystyrir fel cyfalaf o dan baragraff 12(1)(h) neu 65 o Atodlen 10."

**10.** Yn Atodlen 10 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 12(1)—

(i) ym mharagraff (g) yn lle "," rhodder ";";

(ii) ar ôl paragraff (g) mewnosoder—

"(h) taliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014,";

(b) ym mharagraff 43(2) ar ôl "Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd" mewnosoder "a Gofal Cymdeithasol";

(c) ar ôl paragraff 64 mewnosoder—

"**65.** Unrhyw daliad cymorth profedigaeth mewn cysylltiad â'r gyfradd a bennir yn rheoliad 3(2) neu (5) o Reoliadau Cymorth Profedigaeth 2017 (cyfradd y taliad cymorth profedigaeth), ond am gyfnod o 52 o wythnosau yn unig o ddyddiad cael y taliad."

### Diwygiadau i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013

**11.** Mae'r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013(**7**) wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 12 i 19.

**12.** Ym mharagraff 28 (didyniadau annibynyddion: pensiynwyr a phersonau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)(a) yn lle "£13.10" rhodder "£13.75";

(b) yn is-baragraff (1)(b) yn lle "£4.35" rhodder "£4.55";

(c) yn is-baragraff (2)(a) yn lle "£205.00" rhodder "£210.00";

(d) yn is-baragraff (2)(b) yn lle "£205.00", "£355.00" ac "£8.70" rhodder "£210.00", "£365.00" a "£9.15" yn y drefn honno;

(e) yn is-baragraff (2)(c) yn lle "£355.00", "£440.00" a "£10.95" rhodder "£365.00", "£450.00" ac "£11.50".

**13.** Ym mharagraff 55(8)(k) (trin costau gofal plant) yn lle "Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003" rhodder "Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 neu unrhyw reoliadau a

(**7**) O.S. 2013/3035 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2014/852, O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20) ac O.S. 2018/14 (Cy. 7).

wneir o dan adrannau 87 a 93 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdodau lleol".

**14.** Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£163.00" a "£176.40" rhodder "£167.25" a "£181.00" yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£248.80" a "£263.80" rhodder "£255.25" a "£270.60" yn y drefn honno;

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£248.80" ac "£85.80" rhodder "£255.25" ac "£88.00" yn y drefn honno;

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£263.80" ac "£87.40" rhodder "£270.60" ac "£89.60" yn y drefn honno;

(b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£64.30" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£65.85" ac yn lle "£128.60" rhodder "£131.70";

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£25.48" rhodder "£26.04";

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£62.86" rhodder "£64.19";

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£36.00" rhodder "£36.85".

**15.** Yn Atodlen 3 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o'r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£76.10" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£77.90" ac yn lle "£60.25" rhodder "£61.70";

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£76.10" rhodder "£77.90";

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£119.50" rhodder "£122.35";

(b) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau'r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—

(i) yn is-baragraff (1) yn lle "£33.55" a "£47.80" rhodder "£34.35" a "£48.95" yn y drefn honno;

(ii) yn is-baragraff (2) yn lle "£64.30" ym mhob lle y mae'n digwydd rhodder "£65.85" ac yn lle "£128.60" rhodder "£131.70";

(iii) yn is-baragraff (3) yn lle "£62.86" rhodder "£64.19";

(iv) yn is-baragraff (4) yn lle "£36.00" rhodder "£36.85";

(v) yn is-baragraff (5) yn lle "£25.48", "£16.40" a "£23.55" rhodder "£26.04", "£16.80" a "£24.10" yn y drefn honno;

(c) yn Rhan 6 (symiau'r elfennau), ym mharagraff 24 (swm yr elfen gymorth), yn lle "£37.65" rhodder "£38.55".

**16.** Yn Atodlen 6 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo enillion: personau nad ydynt yn bensiynwyr), ym mharagraff 18(2)(b), yn lle is-baragraff (iv) rhodder—

"(iv) y ceisydd, nad yw'n aelod o gwpl, yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 yr wythnos ar gyfartaledd, a bod—

(aa) swm cymwysadwy'r ceisydd yn cynnwys premiwm anabledd o dan baragraff 9 o Atodlen 3 neu'r elfen gymorth o dan baragraff 22 o Atodlen 3; neu

(bb) y ceisydd yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith; neu

(v) y ceisydd yn aelod o gwpl ac o leiaf un aelod o'r cwpl hwnnw yn ymgymryd â gwaith am dâl am ddim llai nag 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd, a bod yr aelod hwnnw o'r cwpl—

(aa) yn bodloni'r amodau cymhwyso ar gyfer y premiwm anabledd o dan baragraff 9 o Atodlen 3 neu'r elfen gymorth o dan baragraff 22 o Atodlen 3; neu

(bb) yn aelod o'r grŵp gweithgaredd perthynol i waith."

**17.** Yn Atodlen 7 (symiau a ddiystyrir wrth gyfrifo incwm ac eithrio enillion: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 46(2) ar ôl "Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd" mewnosoder "a Gofal Cymdeithasol";

(b) ar ôl paragraff 66 mewnosoder—

"**67.** Unrhyw daliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014 (taliad cymorth profedigaeth) ac eithrio unrhyw daliad o'r fath a ddiystyrir fel cyfalaf o dan baragraff 12(1)(h) o Atodlen 9 neu baragraff 65 o Atodlen 9."

**18.** Yn Atodlen 8 (diystyriadau cyfalaf: pensiynwyr)—

(a) ym mharagraff 21(2)—

(i) ym mharagraff (p) hepgorer "neu;";

(ii) ym mharagraff (q) yn lle "." rhodder "; neu";

(iii) ar ôl paragraff (q) mewnosoder—

"(r) taliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014.";

(b) ar ôl paragraff 28B mewnosoder—

"**28C.** Unrhyw daliad cymorth profedigaeth mewn cysylltiad â'r gyfradd a bennir yn rheoliad 3(2) neu (5) o Reoliadau Taliad Cymorth Profedigaeth 2017 (cyfradd y taliad cymorth profedigaeth), ond am gyfnod o 52 o wythnosau yn unig o ddyddiad cael y taliad."

**19.** Yn Atodlen 9 (diystyriadau cyfalaf: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

(a) yn lle paragraff 12(1) rhodder—

"(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), unrhyw ôl-ddyled o'r canlynol, neu unrhyw daliad consesiynol a wneir i ddigolledu am ôl-ddyled oherwydd methiant i dalu'r canlynol, ond am gyfnod o 52 o wythnosau yn unig o ddyddiad cael yr ôl-ddyled neu'r taliad consesiynol—

(a) unrhyw daliad a bennir ym mharagraffau 11, 13 neu 14 o Atodlen 7;

(b) budd-dal ar sail incwm o dan Ran 7 o DCBNC(**8**);

(c) lwfans ceisio gwaith ar sail incwm;

(d) unrhyw daliad tai disgresiynol a delir yn unol â rheoliad 2(1) o Reoliadau Cymorth Ariannol Disgresiynol 2001(**9**);

(e) credyd treth gwaith a chredyd treth plant;

(f) lwfans cyflogaeth a chymorth ar sail incwm;

(g) credyd cynhwysol;

(h) taliad cymorth profedigaeth o dan adran 30 o Ddeddf Pensiynau 2014.";

(**8**) Ystyr "DCBNC" yw Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (p. 4); *gweler* y diffiniad yn rheoliad 2 o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ac ym mharagraff 2 o'r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynlluniau Diofyn) (Cymru) 2013.

(**9**) O.S. 2001/1167.

(b) ym mharagraff 43(2) ar ôl "Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd" mewnosoder "a Gofal Cymdeithasol";

(c) ar ôl paragraff 64 mewnosoder—

"**65.** Unrhyw daliad cymorth profedigaeth mewn cysylltiad â'r gyfradd a nodir yn rheoliad 3(2) neu (5) o Reoliadau Taliad Cymorth Profedigaeth 2017 (cyfradd y taliad cymorth profedigaeth), ond am gyfnod o 52 o wythnosau yn unig o ddyddiad cael y taliad."

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

8 Ionawr 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Cynllun Diofyn") a wnaed o dan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ac Atodlen 1B iddi.

Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru wneud cynllun sy'n pennu'r gostyngiadau sydd i fod yn gymwys i symiau o'r dreth gyngor sy'n daladwy gan bersonau, neu gan ddosbarthiadau o bersonau, y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod mewn angen ariannol. Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig hefyd yn nodi'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cynllun o'r fath.

Mae'r Rheoliadau Cynllun Diofyn yn nodi cynllun a fydd yn cael effaith, mewn cysylltiad ag anheddau sydd wedi eu lleoli yn ardal awdurdod bilio, os yw'r awdurdod yn methu â gwneud ei gynllun ei hun.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliadau 4, 6(a)(i) i (v) a 7 yn cynyddu rhai o'r ffigyrau a ddefnyddir wrth gyfrifo a oes gan berson yr hawl i gael gostyngiad ai peidio, a swm y gostyngiad hwnnw. Mae'r ffigyrau uwchraddedig yn ymwneud â didyniadau annibynyddion (sef addasiadau i uchafswm y gostyngiad y mae hawl gan berson i'w gael, er mwyn cymryd i ystyriaeth oedolion sy'n byw yn yr annedd ac nad ydynt yn ddibynyddion y ceisydd); ac â'r swm cymwysadwy mewn perthynas â chais am ostyngiad (sef y swm y cymherir incwm ceisydd ag ef, er mwyn penderfynu swm y gostyngiad y mae hawl gan y ceisydd i'w gael). Gwneir yr un diwygiadau mewn perthynas â'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 12, 14 a 15.

Gwneir y diwygiadau i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliadau 5, 9(b) a 10(a) ac (c) o ganlyniad i fudd-dâl nawdd cymdeithasol newydd o'r enw'r Taliad Cymorth Profedigaeth (TCP) i briodau a phartneriaid sifil sy'n goroesi a wneir yn weddw ar 6 Ebrill 2017 neu ar ôl hynny. Mae'r diwygiadau yn sicrhau y caiff taliadau amrywiol o'r TCP eu diystyru wrth gyfrifo incwm fel bod, yn gyntaf, y taliad uwch cychwynnol ac unrhyw ôl-ddyledion sydd wedi eu cynnwys yn y taliad misol cyntaf yn cael eu trin fel cyfalaf, a diystyriad o 12 mis yn cael ei gymhwyso o'r dyddiad talu, ac yn ail, fel bod taliadau misol llai dilynol (ac eithrio ôl-ddyledion) yn cael eu trin fel incwm a'u diystyru am fis. Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 17(b), 18 a 19(a) ac (c).

Gwneir y diwygiadau i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliadau 9(a) a 10(b) o ganlyniad i newid enw a throsglwyddo swyddogaethau o'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a wneir gan Orchymyn yr Ysgrifenyddion Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a thros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Throsglwyddo Swyddogaethau (Tir Cyfunddaliad) 2018. Gwneir yr un diwygiadau i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliadau 17(a) a 19(b).

Bwriad y diwygiad i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliad 8 yw egluro'r amodau cymhwyso ar gyfer diystyriad pan fo ceisydd yn aelod o gwpl. Ei fwriad yw egluro bod rhaid i'r person sy'n gweithio hefyd fod y person sy'n bodloni'r amodau cymhwyso drwy fod y person—

- sydd â hawl i bremiwm anabledd, neu

- sy'n derbyn yr elfen gymorth fel rhan o'i ddyfarniad o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (LCCh), neu
- sydd yn y grŵp gweithgaredd perthynol i waith ar gyfer LCCh.

Gwneir yr un diwygiad i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn gan reoliad 16.

Caiff y diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 3(b) a 6(b) eu gwneud o ganlyniad i'r ffaith fod Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar fin cychwyn mewn perthynas â gwasanaeth maethu o fewn ystyr y Ddeddf honno. Mae'r cynllun a ddefnyddir ar hyn o bryd i gymeradwyo rhieni maeth wedi ei nodi yn Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003"). Fodd bynnag, mae'n bosibl y caiff y Rheoliadau hynny eu disodli gan Reoliadau pellach a wneir yn unol ag adrannau 87 a 93 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y diwygiad er mwyn sicrhau y bydd rhieni maeth a gymeradwyir o dan Reoliadau 2003 neu o dan unrhyw reoliadau a wneir yn unol ag adrannau 87 a 93 o Ddeddf 2014 yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth a wneir yn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig mewn cysylltiad â thrin costau gofal plant. Mae rheoliad 13 yn gwneud yr un diwygiad yn y Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae'r diwygiad i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a wneir gan reoliad 6(a)(vi) yn egluro'r sefyllfa mewn cysylltiad â didyniadau annibynyddion fel na fydd unrhyw ddidyniad yn digwydd pan na fo annibynnydd yn y grŵp gweithgaredd perthynol i waith ac yn derbyn budd-daliadau penodol, sef cymhorthdal incwm, credyd pensiwn y wladwriaeth, lwfans ceisio gwaith ar sail incwm neu lwfans cyflogaeth a chymorth ar sail incwm.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Pherfformiad Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.